Adran 48 Deddf Cynllunio 2008
Rheoliad 4 Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni Rhagnodedig a Gweithdrefn) Rheoliadau 2009
Gorchymyn Caniatâd Datblygu yng Nghwm Bargoed, ger Merthyr Tudful
Gorchymyn (Cyfleuster Ynni o Wastraff Brig y Cwm) Covanta

RHYBUDD YN RHOI CYHOEDDUSRWYDD I GAIS ARFAETHEDIG AR GYFER GORCHYMYN CANIATÂD DATBLYGU ("GCD")

Rhoddir rhybudd trwy hyn bod Covanta Brig y Cwm Cyfyngedig (yr "Ymgeisydd") o 8 Darwin House, The Pensnett Estate, Kingswinford, West Midlands DY6 7YB yn bwriadu gwneud cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith (y "Comisiwn") o dan adran 37 Deddf Gynllunio 2008 am y gorchymyn caniatâd datblygu a grybwyllir uchod (y "Cais").

Mae'r Cais yn ymwneud ag adeiladu a gweithredu cyfleuster Ynni o Wastraff i'w adeiladu yng Nghwm Bargoed, ger Merthyr Tudful (y "Prosiect").

Fe fydd y GCD arfaethedig, ymysg pethau eraill, yn awdurdodi:

1 Adeiladu a gweithredu cyfleuster Ynni o Wastraff (YoW) gyda chynnyrch trydanol crynswth cyfartalog o 77 megawat trydanol. Fe fydd y cyfleuster yn cynnwys: y prif adeilad YoW, ynghyd ag adeiladau a gwaith ategol, cyfarpar a stordai; cysylltiad trydanol i'r grid, yn cynnwys adeilad y trawsnewidydd; cyfleuster i alluogi ager i basio allan a / neu ddŵr poeth i basio allan (CHP) er mwyn i ddefnyddwyr dichonol oddi ar y safle ddefnyddio gwresogi proses neu wresogi gofod ac / neu oeri; ffyrdd mewnol y safle, pontydd pwyso, man parcio ceir a cherbydau nwyddau trymion; leiniau aros newydd a chysylltiadau i'r llinell rheilffordd bresennol; craeniau uwchben ar gyfer llwytho a dadlwytho amlwythi gwastraff; man storio amlwythi a gweithdy cynnal a chadw; mynediad newydd i'r safle o Heol Bogey drwy groesfan wastad breifat; canolfan ymwelwyr ac addysg; draeniau budr a darpariaeth ar gyfer triniaeth ar y safle; dull rheoli dŵr wyneb drwy System Ddraenio Drefol Gynaliadwy; tirweddu mewnol a chreu cynefinoedd gyda thriniaethau i ffensys neu derfynau cysylltiedig; man gosod y gwaith adeiladu; gwaith priffyrdd i Heol Bogey; pibell i gludo gwres a llinell drydan breifat i fan ger Stad Ddiwydiannol Goatmill.
2 Caffael tir yn orfodol a pharhaol a / neu hawliau ar gyfer y Project.
3 Cyfnewid tir comin am dir newydd i fynd â'i le.
4 Cymhwyso a / neu ddatgymhwyso deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Prosiect, yn cynnwys, ymysg pethau eraill, deddfwriaeth yn ymwneud â thir comin.
5 Y fath ddarpariaethau ategol, achlysurol ac ôl-ddilynol, trwyddedau neu ganiatâd fel sy'n angenrheidiol ac / neu'n gyfleus.

Mae'r Prosiect yn ddatblygiad Asesu'r Effaith Amgylcheddol. Gan hynny, fe fydd yr Ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol ar gael. Fe all copi o'r Adroddiad Amgylcheddol Rhagarweiniol a Chrynodeb Anhechnegol, sy'n cynnwys manylion y cynigion, gael eu harchwilio yn ddi-dâl yn y lleoliadau a ganlyn ac yn ystod yr oriau a nodir isod:

Swyddfeydd y Cyngor

	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ty Pontllan-fraith, Pontllan-fraith, Coed Duon, NP12 2YW
Dydd Llun	08:30 – 17:00	08:30 – 17:00
Dydd Mawrth	08:30 – 17:00	08:30 – 17:00
Dydd Mercher	08:30 – 17:00	08:30 – 17:00
Dydd Iau	08:30 – 17:00	08:30 – 17:00
Dydd Gwener	08:30 – 16:30	08:30 – 16:30
Dydd Sadwrn	Ar gau	Ar gau
Dydd Sul	Ar gau	Ar gau

Llyfrgelloedd

	Llyfrgell Ystrad Mynach, Stryd Fawr, Ystrad Mynach CF82 7BB	Llyfrgell Ganolog Merthyr, Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8AF	Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Dowlais, Merthyr Tudful CF48 3HS
Dydd Llun	09:30 – 18:00 (ar gau Dydd Llun Gŵyl y Banc)	09:00 – 18:00	09:30 – 19:00
Dydd Mawrth	09:30 – 19:00	09:00 – 19:00	Ar gau
Dydd Mercher	09:30 – 18:00	09:00 – 18:00	09:30 – 18:00
Dydd Iau	09:30 – 13:00	09:00 – 18:00	09:30 – 18:00
Dydd Gwener	09:30 – 19:00	09:00 – 18:00	09:30 – 18:00
Dydd Sadwrn	09:30 – 13:00	09:00 – 14:00	09:30 – 14:00
Dydd Sul	Ar gau	Ar gau	Ar gau

	Llyfrgell Treharris, Stryd Perrott, Treharris CF46 5ET	Llyfrgell Nelson Caerffili, Commercial Street, Nelson CF46 6NF
Dydd Llun	09:30 – 18:00	10:00 – 13:00 & 14:00 – 18:00 (ar gau Dydd Llun Gŵyl y Banc)
Dydd Mawrth	09:30 – 19:00	Ar gau
Dydd Mercher	09:30 – 18:00	10:00 – 13:00 & 14:00 – 19:00
Dydd Iau	Ar gau	10:00 – 13:00 & 14:00 – 17:00
Dydd Gwener	09:30 – 18:00	10:00 – 13:00 & 14:00 – 18:00
Dydd Sadwrn	09:30 – 14:00	10:00 – 13:00
Dydd Sul	Ar gau	Ar gau

	Llyfrgell Pontlotyn, Canolfan Gymunedol, Pontlotyn CF81QD	Llyfrgell Rhymni, Heol Victoria, Rhymni NP22 5NU
Dydd Llun	10:00 – 13:00 (ar gau Dydd Llun Gŵyl y Banc)	09:30 – 13:00 & 14:00 – 18:00 (ar gau Dydd Llun Gŵyl y Banc)
Dydd Mawrth	16:00 – 19:00 (ar gau yn ystod Gŵyl y Banc mis Awst)	09:30 – 13:00 & 14:00 – 18:00
Dydd Mercher	10:00 – 13:00	09:30 – 13:00 & 14:00 – 19:00
Dydd Iau	10:00 – 13:00 & 14:00 – 17:00	09:30 – 13:00 & 14:00 – 17:00
Dydd Gwener	Ar gau	09:30 – 13:00 & 14:00 – 17:30
Dydd Sadwrn	Ar gau	Ar gau
Dydd Sul	Ar gau	Ar gau

Fe fydd y dogfennau'n cael eu harddangos yn y lleoliadau uchod o'r 7fed o Fehefin 2010 tan y 9fed o Orffennaf 2010. Efallai y bydd yna dâl copi rhesymol yn cael ei godi gan y mannau hyn am atgynhyrchu unrhyw un o'r dogfennau. Fe fydd y dogfennau ar gael am ddim o'r 7fed o Fehefin 2010 ar www.covantaenergy.co.uk , sydd hefyd â mathau eraill o wybodaeth am y prosiect. Neu fel arall, fe ellir prynu'r Adroddiad Amgylcheddol Rhagarweiniol am £150 mewn copi caled neu am £10 fel Cryno Ddisg o'r cyfeiriad isod, drwy ysgrifennu, gyda siec yn daladwy i *Covanta Energy Limited*. Mae'r Crynodeb Anhechnegol ar gael yn ddi-dâl.

Fe ddylid anfon unrhyw ymatebion mewn perthynas â'r Prosiect at Covanta Brig y Cwm Cyfyngedig drwy e-bost i Covanta@wepr.co.uk neu yn y post i Covanta Brig y Cwm Cyfyngedig, Canolfan yr Orbit, Parc Busnes Rhyd-y-car, Merthyr Tudful CF48 1DL.

Mae'n rhaid i unrhyw ymateb fod yn ysgrifenedig a chael ei dderbyn ar neu cyn **dydd Gwener, 9 Gorffennaf 2010**. Fe ddylai ymatebion egluro pwy sy'n gwneud yr ymateb a rhoi cyfeiriad ar gyfer gohebu yn y dyfodol. Fe ellir gwneud ymatebion yn gyhoeddus.